

Cydymdeimlad a Chofion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan) oedd wedi ymgartrefu y blynyddoedd diwethaf hyn yn Nghartref Gofal Plas Gwyn. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i brawd, Elwyn Tudor (Henllan) a'r teulu i gyd yn eu colled a gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am chwaer, mam, nain, a hen nain hoffus a charedig.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Morgan Elwy a Mali Elwy (Llansannan) yn dilyn eu llawdriniaeth yn Lerpwl ddechrau'r wythnos hon. Diolchwn fod y cyfan wedi mynd yn ddi-helynt i'r ddau ohonoch a gweddiwn y byddwch yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r llawdriniaeth ac y byddwch yn cryfhau ychydig bach mwy bob dydd. Cyflwynwn y teulu cyfan i ofal Duw gan hyderu y caiff y ddau adferiad iechyd buan iawn. Yn yr un modd anfonwn ein cofion at Dilys Jones (Nantglyn) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau, ond sydd bellach wedi cael dod adref. Gweddiwn eich bod chithau'n profi daioni a chariad Duw yn eich amgylchynu ac y byddwch yn cael gwellhad buan. Cofiw'n am eraill o'n plith sydd wedi bod yn yr ysbyty hefyd a dymunwn yr un gwellhad i chithau.

Anfonwn ein cofion at bawb ohonoch chithau hefyd dros y Nadolig ac at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan), Mrs Edna Evans (Llanfair), a Mrs Gwenllian Jones (Henllan). Fe'ch cyflwynwn chwi oll i ofal Duw gan weddio eich bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drosoch.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.



Y Rhifyn Nesaf



Bydd y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 3^{ydd}**.

Nadolig Llawen i bob un ohonoch!

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (30ain), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 13 Rhagfyr 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

“Peidiwch ag ofni, fy mhraidd bychan, oherwydd gwelodd y Tad yn dda i roi i chwi'r deyrnas.” (Luc 12:32)

Dyma'r geiriau hyfryd a rannodd Iesu gyda'i ddisgyblion wrth iddo sôn wrthynt am eu hofnau a'u pryderon. Ac wrth i ni baratoi at Nadolig gwahanol eleni, diolchwn fod y geiriau hyn yr un mor berthnasol i'r rhai sy'n eiddo'r Bugail Da yn 2020 hefyd.

Sylwch ar y tosturi yng ngeiriau Iesu. Er mor ddruslyd ac anobeithiol y gallwn deimlo wrth wynebu gwahanol amgylchiadau, os ydym wedi ymddiried yng Nghrist ni fyddwn ar ein pen ein hunain nac yn ddi-amddiffyn. Dywed Iesu mai ei braidd bychan Ef yw'r disgyblion – ac mae ganddo ofal arbennig drostynt.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu mwy a mwy yn cwestiynu gwerth anfon cardiau Nadolig, ond tybed nad yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud i nifer ailystyried hyn yng ngoleuni'r pellter gorfodol sydd wedi bod rhwng cymaint o deuluoedd, ffrindiau a chymdogion? Ac oni ddylem ailystyried addewidion Duw a gofal Iesu Grist dros ei bobl yn yr un ffordd? Heb yr arferion cyfarwydd yr ydym wedi arfer cael cysur ohonynt, gweddiwn am help Duw i gael golwg o'r newydd ar hyfrydwch y Pen Bugail a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o'i braidd trwy ffydd.

Fel y gwelsom wrth ystyried proffwydoliaeth Micha 5 ddydd Sul, roedd Duw wedi dweud o flaen llaw y byddai'r un o Fethlehem yn fugail i'w bobl. Y disgrifiad yw – ‘*Fe saif ac arwain y praidd yn nerth yr Arglwydd ... A byddant yn ddiogel!*’ (Micha 5:4). Yn ein gwendid a'n hofn byddwn yn cael ein temtio i feddwl nad yw Iesu'n gallu gwneud gwahaniaeth yn ein sefyllfa benodol ni – ond nid yw hyn yn wir. Does dim angen mor fawr na sefyllfa yn rhy argyfyngus fel nad yw'r Arglwydd Iesu'n barod i fugeilio'r rhai sy'n troi ato am gymorth. Gwelwyd hynny'n glir trwy gydol gweinidogaeth Iesu ar y ddaear.

Wrth i mi ddymuno Nadolig bendithiol i ddarllenwyr Llais Bro Aled, cofiw'n sut bynnag y bydd pethau dros yr wythnosau nesaf, bod pobl Crist yn ddiogel yn ei gorlan Ef gan fod y Bugail Da wedi rhoi ei einioes dros y defaid. (Ioan 10:11) Ac nid

diogelwch dros dro yw hyn, ond un o'r bendithion tragwyddol sy'n dod o fod yn etifeddion teyrnas Dduw.

Fe'n gwnaeth ni, blant dynion,
yn ferched, yn feibion,
i'w Dad yn 'tifeiddion
o'r deyrnas sydd fry,
i fyw yn ei feddiant
mewn nefol ogoniant
er mawrglod a moliant i'r Iesu. (469 Caneuon Ffydd)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 13^{eg}

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)

- **Oedfa ar y we**

Cynhelir oedfa am 10:30 ac edrychwn ymlaen i gael cwmni y Parch. Hywel Meredydd. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, bydd modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Mercher –
16^{eg}



Gwasanaeth Carolau Rhithiol

am 7:30 yr hwyr

(Cliciwch ar y llun 'Gwasanaeth Carolau Rhithiol Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled i ymuno. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, bydd modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Iau – 17^{eg}

- **Cyfarfod Blaenoriaid y Fro** ar ZOOM am 7.30 (neu gallwch ffonio i ymuno â'r cyfarfod). Os nad ydych wedi derbyn y manylion i ymuno, cysylltwch â Mair.

Sul – 20^{fed}


- **Oedfa fyw ar y we**

Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled ar ZOOM**

Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ymuno am sgwrs ar ZOOM. (Cliciwch ar y llun 'Sgwrs Bore Sul Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled i ymuno.)

Gwener –
25^{ain}



Gwasanaeth Bore Nadolig ar ZOOM am 9:30

(Cliciwch ar y llun 'Gwasanaeth Bore Nadolig Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled i ymuno.)

Sul – 27ain

- **Oedfa ar y we**

Cynhelir oedfa am 10:30 yng nghwmni Aneurin. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, bydd modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Sul – 3^{ydd}

- **Oedfa fyw ar y we**

Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

“Ganwyd i chi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” (Luc 2:11)